Carreg Lam, Heol yr Orsaf, Tre Griffith, Pont-y-Pŵl, Torfaen, NP4 5JH
01495 762581
carreg-lam@torfaen.gov.uk
www.carreg-lam.com

Arweinydd / Leader: Dr. Matthew James Williamson-Dicken, MA(Add), PGCert, BA(Anrh), CMgr FCMI
Dirprwy Arweinydd / Deputy Leader: Mrs. Carys Soper

# Polisi a Llywodraethu Addysg Drochi yn Japan a Chymru

## Erthygl Estyn i Fyd Ymchwil ar gyfer ASPE (*Association for the Study of Primary Education*)

**Childs, D., Powles, A., Williamson-Dicken, M., Phillips, N., Blackmore, R., Soper, C. a Stokes, M. (2025)**

### Crynodeb

Mae'r erthygl hon yn tynnu ynghyd ddadansoddiad o fframweithiau polisi trochi iaith gynradd yn Tokyo a Chymru, trwy gymhariaeth, gan dynnu ar waith maes dirprwyaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ym mis Hydref 2025 ac adolygiad o ddogfennau polisi, fframweithiau arolygu a llenyddiaeth ysgolheigaidd. Mae'n archwilio trefniadau llywodraethu, bwriad strategol, mecanweithiau gwerthuso, rolau rhanddeiliaid, a gyrwyr sosioieithyddol sy'n dylanwadu ar ddarpariaeth drochi. Mae llywodraethu dwy-haen Tokyo (Bwrdd Addysg Metropolitan Tokyo a Byrddau lefel ward) yn sicrhau bod modd arloesi'n lleol ond yn creu mynediad anghyfartal ac amrywiaeth mewn arferion gwerthuso. Mae Cymru'n sefydlu addysg drochi mewn saernïaeth statudol, sy'n seiliedig ar hawliau (Cymraeg 2050; Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg) gyda chefnogaeth arolygiad Estyn a chynllunio systematig, gan sicrhau mwy o gydlyniant ac atebolrwydd. Mae'r erthygl yn nodi gwersi y gall y ddwy system ddysgu oddi wrth ei gilydd ac yn cynnig argymhellion wedi'u targedu i gryfhau tegwch, dysgu proffesiynol, a defnydd iaith yn y gymuned.

### Cyflwyniad

Mae trochi iaith mewn addysg gynradd yn offeryn polisi sydd â nodau addysgegol a sosioieithyddol: datblygu cymhwysedd dwyieithog, cefnogi adfywiad iaith leiafrifol, a pharatoi dysgwyr at gymdeithasau byd-eang. Roedd dirprwyaeth Prosiect Tokyo yn cynnwys swyddogion awdurdodau lleol, arbenigwyr trochi, ac arweinwyr ysgolion a fu'n ymgysylltu â swyddogion addysg Tokyo, yn ymweld â lleoliadau trochi, ac yn archwilio goblygiadau ar gyfer ymarfer cyfrwng Cymraeg.

Mae'r dadansoddiad yn lleoli Tokyo a Chymru ar bwyntiau gwahanol ar gontinwwm llywodraethu. Mae Cymru'n dilyn strategaeth drochi statudol, a gydlynir yn genedlaethol, sydd wedi'i chynllunio i adfywio'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae Tokyo yn gweithredu o fewn fframwaith cenedlaethol canoledig Japan ond mae'n arddangos hyblygrwydd ar lefel fetropolitan sydd wedi ei galluogi i arbrofi gyda'r ddarpariaeth drochi. Mae'r cyferbyniad hwn yn cynnig sail gynhyrchiol ar gyfer ymholiad sy'n cymharu: pa drefniadau llywodraethu, mecanweithiau gwerthuso, ac arferion rhanddeiliaid sy'n cefnogi trochi teg, o ansawdd uchel, ar raddfa fawr?

Mae'r erthygl hon yn mynd rhagddi fel a ganlyn: mae'r adolygiad o lenyddiaeth yn crynhoi gwaith damcaniaethol ac empirig allweddol ar lywodraethu trochi, gwerthuso, a gyrwyr sosioieithyddol. Yna, mae'r adrannau dilynol yn archwilio (1) saernïaeth llywodraethu a pholisi yn Tokyo, (2) system drochi a threfniadau arolygu statudol Cymru, a (3) gwerthuso trwy gymharu a goblygiadau ar gyfer addysgeg.

### Adolygiad o Lenyddiaeth

*Sylfeini Damcaniaethol Addysg Drochi*

Mae addysgeg drochi wedi'i seilio ar theori caffael ail iaith ac ysgolheictod addysg ddwyieithog. Mae damcaniaeth trothwy a rhyng-ddibyniaeth Cummins yn pwysleisio buddion gwybyddol ac academaidd datblygiad cryf mewn iaith gyntaf ar gyfer cyrhaeddiad dilynol mewn ail iaith (Cummins, 1979; Cummins, 2000). Mae fframweithiau dwyieithrwydd ychwanegol yn dadlau bod gwerthfawrogi'r ddwy iaith yn cefnogi'r gallu i ffurfio hunaniaeth a deilliannau academaidd (Baker, 2011). Mae adolygiadau empirig yn dangos y gall rhaglenni trochi sydd ag adnoddau da greu rhuglder llafar cyflym a chyrhaeddiad academaidd tebyg gydag amser (Genesee, 2004; Lindholm-Leary, 2012).

*Llywodraethu, Polisi a Chynllunio Iaith*

Mae ysgolheigion polisi yn tynnu sylw at rôl llywodraethu aml-lefel wrth lunio siâp deilliannau addysg iaith (Hornberger, 2006). Gall fframweithiau statudol a strategaethau cenedlaethol weithredu'r ddarpariaeth drochi ar raddfa fwy a sicrhau tegwch, a gall modelau datganoledig feithrin arloesi ond gyda'r perygl y bydd y ddarpariaeth yn ddarniog (May, 2012). Mae trefniadau arolygu ac offerynnau cynllunio statudol (e.e. cynlluniau strategol, categoreiddio ysgolion) yn ganolog i atebolrwydd a chydlyniant (Gorard a Taylor, 2002).

Ariennir gan / Funded by Taith
Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government

*Gwerthuso a Dysgu Proffesiynol*

Mae trochi effeithiol yn gofyn am systemau gwerthuso wedi'u halinio sy'n mesur deilliannau academaidd ac iaith (Thomas a Collier, 2002). Caiff arferion astudio gwersi a dysgu proffesiynol ar y cyd eu dogfennu'n eang fel mecanweithiau pwerus ar gyfer gwella addysgeg yng nghyd-destunau Dwyrain Asia (Lewis, 2002; Takahashi a McDougal, 2016). I'r gwrthwyneb, gall systemau arolygu dan arweiniad allanol yrru safonau a thegwch ar draws systemau cyfan o'u cyfuno â datblygiad proffesiynol ategol (Sahlberg, 2011).

*Gyrwyr Sosioieithyddol ac Integreiddio Cymunedol*

Mae cymhelliant iaith, defnydd cymunedol, ac ecoleg y cyfryngau yn dylanwadu ar siâp cynaliadwyedd deilliannau trochi (Gardner, 1985; Krashen, 1982). Mae presenoldeb defnydd iaith sefyllfaol, bob-dydd (e.e. o fewn y teulu, yn y gymuned a thrwy gyfryngau digidol) yn cefnogi'r gallu i gadw iaith a'i throsglwyddo y tu hwnt i'r ysgol (Fishman, 1991). Mae astudiaethau ar ddysgwyr mudol yn pwysleisio trafod hunaniaeth a'r angen am raglenni sy'n mynd i'r afael â pherthyn i gymdeithas yn ogystal â chymhwysedd ieithyddol (Pollock a Van Reken, 2009; Caselius a Suutari, 2025).

**Llywodraethu a Saernïaeth Polisi yn Tokyo**

*Fframwaith Cenedlaethol a Doethineb Lleol*

Mae saernïaeth addysg genedlaethol Japan yn ganoledig iawn. Mae MEXT (*Ministry of Education, Culture, Sports, Science and Technology*) yn cyhoeddi'r Cwrs Astudio, yn gosod safonau ardystio athrawon, ac yn rhagnodi canllawiau'r cwricwlwm (MEXT, 2020). Pwysleisiodd diwygiad y Cwrs Astudio yn 2020 gymhwysedd wrth gyfathrebu yn Saesneg, gan gyflwyno cyfarwyddyd ffurfiol yng Ngradd 5 a gweithgareddau llafar cynharach yng Ngradd 3. Fodd bynnag, mae traddodiadau cyfieithu-gramadeg a diwylliannau asesu risg-uchel yn dal i ddylanwadu ar yr ymarfer yn yr ystafell ddosbarth (Dixon, 2025, gwaith maes).

Yn hanfodol, nid oes gan Japan strategaeth drochi genedlaethol. Nid yw rhaglenni arddull drochi, lle mae cynnwys pwnc yn cael ei gyflwyno trwy ail iaith, yn cael eu mandadu, ac fel arfer maent yn deillio o fenter leol, angen demograffig, neu arloesi sefydliadau (Agency for Cultural Affairs, 2020).

*Llywodraethu Dwy-Haen Tokyo*

Mae Tokyo yn eithriad metropolitan o fewn system ganoledig Japan. Mae Bwrdd Addysg Metropolitan Tokyo (TMBE) yn gweithredu ar lefel daleithiol, gan oruchwylio ysgolion uwchradd metropolitan ac arloesi strategol, tra bod Byrddau Addysg ar lefel ward yn rheoli ysgolion elfennol (cynradd) a chanol o dan Ddeddf Gweinyddu Addysg Leol (1956). Mae'r model dwy-haen hwn yn galluogi mentrau ar lefel fetropolitan (e.e. Tokyo Global Gateway; cynlluniau peilot CLIL) ochr yn ochr ag arbrofi ar lefel ward mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i ddemograffeg leol (Bwrdd Addysg Metropolitan Tokyo, 2025).

Mae swyddogaethau strategol TMBE yn cynnwys ariannu datblygiad athrawon mewn addysgeg drochi, treialu CLIL mewn lleoliadau uwchradd, a chydlynu mentrau ar draws wardiau. Mae gan fyrddau ward ymreolaeth dros staffio, cyllidebu ac arloesi ar lefel ysgolion, ac mae hyn yn eu alluogi i ymateb mewn ffordd sydd wedi'i thargedu wrth integreiddio mudwyr a chynnig cymorth dwyieithog (Minato Ward Education, 2025; Edogawa City Education, 2025).

*Y Sector Ysgolion Preifat a Rhyngwladol*

Mae ysgolion rhyngwladol a phreifat yn gweithredu y tu allan i gwricwlwm safonol MEXT ac yn aml yn cael eu categoreiddio fel ysgolion amrywiol (kakushu gakkō), gan roi ymreolaeth gwricwlaidd iddynt a'r gallu i gyflwyno addysg drochi yn ddiofyn (Deddf Ysgolion Preifat). Yn aml, mae'r sefydliadau hyn yn mabwysiadu'r Fagloriaeth Ryngwladol (IB) neu gwricwla o dramor ac maent yn asesu hyfedredd iaith gan ddefnyddio canllawiau sydd wedi'u halinio i CEFR a chymedroli'r IB. Er eu bod yn gyrru arloesi a galw ymhlith rhieni am lwybrau dwyieithog, mae eu mynediad sy'n seiliedig ar ffioedd yn cyfrannu at ddarpariaeth haenog ac at atebolrwydd cyhoeddus cyfyngedig (gwaith maes yn Ysgol Ryngwladol y Santes Fair, 2025).

**System Drochi a Threfniadau Arolygu Statudol Cymru**

*Cymraeg 2050 a Chynllunio Strategol*

Mae Cymru yn sefydlu trochi fel offeryn canolog ar gyfer adfywio'r Gymraeg. Mae Cymraeg 2050 yn gosod targedau penodol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a nifer y siaradwyr, gan fframio addysg fel y prif lifer ar gyfer newid (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chynlluniau Strategol dilynol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau) yn rhoi'r nodau hyn ar waith ar lefel awdurdod lleol, ac yn gofyn am dargedau deng-mlynedd, monitro blynyddol, ac aliniad â cherrig milltir cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2019).

*Rolau Awdurdodau Lleol a Fforymau Addysg Gymraeg*

Mae awdurdodau lleol yn trosi'r strategaeth genedlaethol yn gamau gweithredu lleol trwy'r CSCAau a Fforymau Addysg Gymraeg, sy'n cynnull swyddogion ALl, arweinwyr ysgolion, darparwyr blynyddoedd cynnar, a rhanddeiliaid cymunedol i gydlynu trefniadau ehangu, datblygu'r gweithlu a phontio. Mae mecanweithiau craffu o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus (Llywodraeth Cymru, 2021).

*Categoreiddio Ysgolion a'r Cwricwlwm i Gymru*

Mae fframwaith categoreiddio ysgolion diwygiedig yn egluro statws iaith a llwybrau pontio (e.e. C1–C3, T2–T3), gan gefnogi gwaith cynllunio strategol ac eglurder rhieni. Mae'r Cwricwlwm i Gymru (sy'n orfodol er 2022) yn sefydlu dysgu Cymraeg o 3 oed ac yn darparu un continwwm ar gyfer cynnydd, gan atgyfnerthu addysgeg drochi ar draws y system (Llywodraeth Cymru, 2022). Er bod y continwwm hwn wedi cael ei feirniadu am ei ddiffyg eglurder, ymgorfforwyd CEFR iddo i gefnogi'r gallu i fesur hyfedredd yn y Gymraeg.

*Arolygiad Estyn ac Atebolrwydd*

Mae fframwaith arolygu diwygiedig Estyn (2024) yn gwerthuso trefniadau trochi trwy ddull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n sensitif i'r cyd-destun. Mae arolygiadau yn asesu addysgu a dysgu, lles ac arwain, ac mae'r timau'n cynnwys arolygwyr cymheiriaid ac enwebeion o'r ALl. Mae adroddiadau naratif a mecanweithiau dilynol Estyn yn darparu atebolrwydd allanol ac yn cefnogi gwelliant parhaus mewn lleoliadau trochi (Estyn, 2024).

**Gwerthuso trwy Gymharu a Goblygiadau ar gyfer Addysgeg**

*Modelau Gwerthuso: Cylchoedd dan Arweiniad Ysgolion o Gymharu ag Arolygu Allanol*

Mae trefniadau gwerthuso Tokyo yn dibynnu'n helaeth ar gylchoedd Cynllunio-Gwneud-Gwirio-Gweithredu dan arweiniad ysgolion, astudio gwersi, a phaneli cynghori allanol. Mae'r mecanweithiau hyn yn meithrin gwelliant iterus a chydweithio rhwng athrawon ond nid oes ganddynt feincnodau cenedlaethol safonedig ar gyfer deilliannau trochi. Mae Cymru yn cyfuno hunanwerthuso gan ysgolion ag arolygiad allanol gan Estyn, gan sicrhau cysondeb ac atebolrwydd statudol ar draws y system. Mae gan bob model ei gryfderau: mae dull Tokyo yn cefnogi'r gallu i ymateb ar lefel leol a dysgu proffesiynol; mae model Cymru yn sicrhau tegwch ac aliniad â nodau iaith cenedlaethol.

*Dysgu Proffesiynol ac Astudio Gwersi*

Mae traddodiad astudio gwersi Tokyo (jugyō kenkyū) yn cynnig model cadarn ar gyfer dysgu proffesiynol ar y cyd, gan alluogi athrawon i gyd-ddylunio gwersi trochi, arsylwi arnynt a'u mireinio. Gallai Cymru elwa ar integreiddio arfer astudio gwersi strwythuredig i'w repertoire datblygiad proffesiynol i ddyfnhau arbenigedd addysgegol mewn cyd-destunau trochi (Lewis, 2002).

*Cyd-destunau Sosioieithyddol a Chymhelliant*

Mae'r gyrwyr sosioieithyddol yn wahanol iawn. Ysgogwyd addysg drochi'r Gymraeg gan adfywiad iaith a throsglwyddiad iaith o genhedlaeth i genhedlaeth; mae'r defnydd cymunedol o'r Gymraeg yn dal i fod yn anghyfartal, ac mae angen ymyriadau cymunedol a digidol wedi'u targedu i normaleiddio'r defnydd ohoni y tu allan i'r ysgol. Mae cynlluniau trochi peilot Tokyo yn ymateb i integreiddiad mudwyr a chymhwysedd byd-eang, ond yn aml mae dysgwyr anfrodorol a theuluoedd sydd yno dros dro yn gweld y Japaneeg fel iaith heb fawr o ddefnydd iddi, ac mae hyn yn tanseilio cymhelliant (Matsumoto ac Obana, 2024; Ichiyanagi, 2025, gwaith maes). Mae'r ddau gyd-destun yn amlygu pwysigrwydd cyfleoedd iaith sefyllfaol a chyfryngau sy'n taro tant yn ddiwylliannol, er mwyn cynnal cymhelliant.

*Tegwch a Mynediad*

Mae fframwaith statudol Cymru yn blaenoriaethu tegwch trwy Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, cyllid ar gyfer trochi hwyr, a goruchwyliaeth Estyn. Mae'r arloesi ar lefel ward yn Tokyo yn rhoi cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr mudol ond yn creu amrywiaeth o ran mynediad ac ansawdd. Mae amlygrwydd y sector preifat yn Tokyo yn codi pryderon ynghylch darpariaeth haenog; mae model hawliau cyhoeddus Cymru yn lliniaru risgiau o'r fath ond mae'n wynebu cyfyngiadau ar y gweithlu a gwahaniaethau rhanbarthol.

**Argymhellion**

1. Cryfhau Cyfleoedd ar gyfer Iaith Sefyllfaol
   Buddsoddi mewn micro-amgylcheddau yn y gymuned (e.e. hybiau Cymraeg gwib, clybiau ieuenctid) a chanolfannau profiad wedi'u modelu ar Tokyo Global Gateway i ymestyn y defnydd o'r iaith y tu hwnt i'r ysgol a chefnogi'r gallu i gadw'r iaith mewn ardaloedd mwy Seisnig
   (Goblygiadau polisi: cyllid traws-sector a phartneriaethau lleol).

2. Ehangu Cynnwys Digidol Cymraeg
   Ariannu a hyrwyddo crewyr digidol Cymraeg sy'n briodol i oedran, ar draws llwyfannau, i ddarparu cyfleoedd gwrando sefyllfaol dilys a chyseiniant diwylliannol i ddysgwyr ifainc
   (Goblygiadau polisi: cefnogaeth y llywodraeth a sefydliadau diwylliannol i grewyr cynnwys).

3. Integreiddio Arfer Astudio Gwersi i Ddatblygiad Proffesiynol
   Mabwysiadu modelau astudio gwersi strwythuredig o fewn fframweithiau dysgu proffesiynol Cymru i ddyfnhau addysgeg drochi, tra dylai systemau Tokyo ffurfioli allbynnau astudio gwersi i'w lledaenu ar draws wardiau
   (Goblygiadau polisi: dyrannu amser ac adnoddau DPP ar gyfer cyd-ymholiad).

4. Safoni Meincnodau Hyfedredd ac Arferion Arolygu Dwyieithog

Dylai Cymru ystyried mabwysiadu meincnodau wedi'u halinio â CEFR yn ehangach; gallai Cymru dreialu llywodraethu sy'n seiliedig ar glwstwr i wella cydlyniant strategol ar draws ysgolion cyfagos.
(Goblygiadau polisi: deialog rhynglywodraethol a chyllid peilot).

5. Treialu Cydweithio Cyfrwng Cymysg a Chydweithio ar Sail Clwstwr
Archwilio cynlluniau peilot ar gyfer llywodraethu clwstwr a ffederasiynau cyfrwng cymysg fel bod modd rhannu adnoddau, staffio ar y cyd, a thrwytho arbenigedd ar drochi yn raddol i leoliadau cyfrwng Saesneg
(Goblygiadau polisi: fframweithiau canllaw a gwerthuso canlyniadau cynlluniau peilot).

6. Blaenoriaethu Mynediad Teg a Datblygu'r Gweithlu
Dylai'r ddwy system fuddsoddi mewn recriwtio, cadw a hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer athrawon dwyieithog, a sicrhau bod unedau trochi hwyr a gwasanaethau cymorth wedi eu dosbarthu'n deg (Goblygiadau polisi: cyllid wedi'i dargedu a dilyniant ar gyfer y gweithlu).

**Casgliad**

Wrth ddadansoddi Tokyo a Chymru trwy gymharu, datgelir cryfderau cyflenwol a gwendidau penodol. Mae Cymru'n dangos sut y gall strategaeth statudol, arolygu a gwaith cynllunio'r awdurdodau lleol gynnig darpariaeth drochi ar raddfa fawr fel hawl cyhoeddus a chyfrwng ar gyfer adfywio iaith. Mae Tokyo yn dangos potensial hyblygrwydd metropolitan, astudio gwersi, ac integreiddio cymunedol i arloesi o fewn system genedlaethol ganoledig. Trwy ddysgu oddi wrth ein gilydd, gall cyfuno dysgu proffesiynol cydweithredol Tokyo ag atebolrwydd arolygu Cymru, gynnig llwybr at systemau trochi mwy cydnerth a theg. Er mwyn gwireddu'r potensial hwn mae angen buddsoddiad parhaus mewn amgylcheddau iaith cymunedol, cynnwys diwylliannol digidol, dysgu proffesiynol, ac arbrofion llywodraethu sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng y gallu i ymateb ar lefel leol a chydlyniant ar draws y system gyfan.

**Cyfeiriadau**


Agency for Cultural Affairs (Japan) (2020) *Basic Policy for Japanese Language Education.* Tokyo: Agency for Cultural Affairs.

Baker, C. (2011) *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism*. 5ed argraffiad Bryste: Multilingual Matters.

Caselius, K. a Suutari, V. (2025) 'Third Culture Kids and cultural homelessness: longitudinal perspectives', *Journal of Global Mobility*, 3(1), tt. 45–62.

Cummins, J. (1979) 'Linguistic interdependence and the educational development of bilingual children', *Review of Educational Research*, 49(2), tt. 222–251.

Cummins, J. (2000) *Language, Power and Pedagogy: Bilingual Children in the Crossfire*. Clevedon: Multilingual Matters.

Dixon, C.I. (2025) Cyfweliad gwaith maes, Prifysgol Tsukuba, dirprwyaeth Tokyo, Hydref 2025. Heb ei gyhoeddi.

Edogawa City Education (2025) *Edogawa City Education Portal*. Ar gael ar: https://www.city.edogawa.tokyo.jp (Darllenwyd: 25 Tachwedd 2025).

Estyn (2024) *Sut rydym yn arolygu trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol*. Caerdydd: Estyn.

Fishman, J.A. (1991) *Reversing Language Shift: Theoretical and Empirical Foundations of Assistance to Threatened Languages*. Clevedon: Multilingual Matters.

Genesee, F. (2004) 'What do we know about bilingual education for majority-language students?', yn *Bilingual Education and Bilingualism*, 3ydd argraffiad Caergrawnt: Cambridge University Press, tt. 547–564.

Gorard, S. a Taylor, C. (2002) 'What is the evidence on impact of school inspection?', *British Educational Research Journal*, 28(2), tt. 163–180.

Holloway, S., et al. (2009) 'Parental involvement and home learning in Japan', *Early Childhood Research & Practice*, 10(1). Ar gael ar: http://ecrp.uiuc.edu/v10n1/holloway.html (Darllenwyd: 25 Tachwedd 2025).

Hornberger, N.H. (2006) 'Frameworks and models in language policy and planning', yn *Encyclopedia of Language & Linguistics*. 2il argraffiad Rhydychen: Elsevier, tt. 719–731.

Ichiyanagi, T. (2025) Cyfweliad gwaith maes, Ysgol Addysg i Raddedigion, Prifysgol Tokyo, Hydref 2025. Heb ei gyhoeddi.

Krashen, S. (1982) *Principles and Practice in Second Language Acquisition*. Rhydychen: Pergamon.

Lewis, C. (2002) 'Lesson study: A handbook of teacher-led instructional change', *Research for Better Schools*. Philadelphia: Research for Better Schools.

Lindholm-Leary, K. (2012) 'Success and challenges in dual language education', *Theory Into Practice*, 51(4), tt. 256–262.

Llywodraeth Cymru (2017) *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2019) *Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2021) *Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2022) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru:* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) (2025) *Asesiad Effaith Integredig*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Matsumoto, Y. a Obana, Y. (2024) 'Language persistence among transient international students in Japan', *Journal of Multilingual Education*, 12(2), tt. 78–95.

May, S. (2012) *Language and Minority Rights: Ethnicity, Nationalism and the Politics of Language*. 3ydd argraffiad Abingdon: Routledge.

Minato Ward Education (2025) *Gwefan Swyddogol Dinas Minato*. Ar gael ar: https://www.city.minato.tokyo.jp (Darllenwyd: 25 Tachwedd 2025).

MEXT (Ministry of Education, Culture, Sports, Science and Technology) (2020) *Course of Study (Diwygiad 2020)*. Tokyo: MEXT.

OECD (n.d.) *Education Policy in Japan – Country Profile*. Ar gael ar: https://www.oecd.org/japan (Darllenwyd: 25 Tachwedd 2025).

Pollock, D.C. a Van Reken, R.E. (2009) *Third Culture Kids: Growing Up Among Worlds*. 2il argraffiad Boston: Nicholas Brealey.

Private Schools Act (Japan) (n.d.) *Private Schools Act - English - Japanese Law Translation*. Ar gael ar: https://www.japaneselawtranslation.go.jp (Darllenwyd: 25 Tachwedd 2025).

Salih, A. ac Omar, N. (2024) 'Enhancing EFL learners' engagement in situational language skills through clustered digital materials', *Frontiers in Education*, 9, Erthygl 1719631557.

Sahlberg, P. (2011) *Finnish Lessons: What Can the World Learn from Educational Change in Finland?* 2il argraffiad Efrog Newydd: Teachers College Press.

Takahashi, A. a McDougal, T. (2016) 'Lesson study in Japan: A model for professional learning', *International Journal for Lesson and Learning Studies*, 5(3), tt. 199–214.

Thomas, W.P. a Collier, V.P. (2002) *A National Study of School Effectiveness for Language Minority Students' Long-Term Academic Achievement*. Santa Cruz: Center for Research on Education, Diversity & Excellence.

Tokyo Metropolitan Board of Education (2025) *Tokyo Global Gateway – Official Site*. Ar gael ar: https://www.kyoiku.metro.tokyo.lg.jp (Darllenwyd: 25 Tachwedd 2025).

Yomiuri Shimbun (2024) 'Children of foreign nationalities in Japan', *Yomiuri Shimbun*, 12 Mawrth 2024.

Ysgol Ryngwladol y Santes Fair (2025) Arsylwadau gwaith maes, dirprwyaeth Tokyo, Hydref 2025. Heb ei gyhoeddi.